

## Cwrdd â'r Siaradwyr

### Cadeirydd – Derith Powell MBE

A hithau wedi gweithio ar bob lefel ym maes datblygu cymunedol yng Nghymru am dros bedwar degawd, mae Derith Powell yn mwynhau cyfuniad o rolau ar hyn o bryd.

Yn fwyaf diweddar, mae hyn yn cynnwys sefydlu Hadu Newid Associates (ymgyngoriaeth Datblygu Cymunedol sy'n seiliedig ar asedau), ochr yn ochr â'i diddordebau personol a phroffesiynol eraill sy'n cynnwys rhoi cymorth uniongyrchol i grwpiau lleol a goruchwyliaeth strategol ar gyfer sefydliadau cenedlaethol, yn cynnwys Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau (BCT).

Cyn hyn gweithiodd fel arweinydd Datblygu Cymunedol Cymru a Chyfarwyddwr Menter Dyffryn Aman a gwasanaethodd ar gyrrff cenedlaethol ac yn y DU hefyd.

Cydnabuwyd ei chyfraniad at drechu tlodi ac allgáu cymdeithasol a dysgu a hyfforddiant yng nghyswllt datblygu cymunedol yn 2003 pan ddyfarnwyd MBE iddi. Mae Derith yn Ymddiriedolwr BCT.

[www.hadunewid.com](http://www.hadunewid.com)  
[derithpowell@outlook.com](mailto:derithpowell@outlook.com)  
[@DerithPowell](https://twitter.com/DerithPowell)

---

### Prif Siaradwyr

#### Neil McInroy, Prif Weithredwr, *Centre for Local Economic Strategies* (CLES)

Yn brif sylwebydd ar ddatblygiad economaidd a pholisi cyhoeddus, mae Neil wedi amlygu'i hun ymysg y 50 o bobl fwyaf dylanwadol mewn llywodraeth leol yn y Local Government Chronicle. Bu'n cymryd rhan mewn polisi a chyflawni yn y sector cyhoeddus am dros 25 mlynedd.

Mae Neil wedi bod yn cydweithio ag amrediad o lywodraethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac asiantaethau drwy'r DU yn ogystal ag Ewrop, Asia, America ac Awstralia. Ei sgiliau penodol yw polisi strategol, ymchwil economaidd a chymdeithasol lleol, dadansoddiad a datblygiad, methodolegau ymchwil a hyrwyddo.

[www.cles.org.uk](http://www.cles.org.uk)  
[neilmcinroy@cles.org.uk](mailto:neilmcinroy@cles.org.uk)  
[@nmcinroy](https://twitter.com/nmcinroy) [@CLESthinkdo](https://twitter.com/CLESthinkdo)

#### Chris Johnes, Y Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau (YAC)

Mae gan Chris, fel un sydd ag ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a hyrwyddo llais i'r bobl mewn penderfyniadau, brofiad helaeth o arwain yn y sector nid-er-elw.

Gweithiodd yn ei swydd flaenorol fel Cyfarwyddwr Rhaglen Dlodi Oxfam UK, lle bu'n arwain ymgyrch llygad y cyhoedd ar dlodi bwyd, ynghyd â gwaith datblygu strategol, adeiladu partneriaethau a chodi arian yr elusen.

Cyn hynny roedd yn Bennaeth Oxfam Cymru, lle bu'n gyfrifol am ehangu'n sylweddol rhaglen gwrth-dlodi'r elusen, yn ymgyrchu ynglŷn â materion byd-eang yn ymwneud â newid hinsawdd a chymorth, ac yn cynyddu dylanwad Oxfam ar Lywodraeth Cymru a chyrrff dinesig.

Cafodd ei brofiad mwyaf o gefnogi cymunedau yng Nghymru fel Cydgordiwr cenedlaethol Rhwydwaith Gefnogi Cymunedau'n Gyntaf lle bu am saith mlynedd yn arwain partneriaeth o wyth o gyrff oedd yn rhoi cefnogaeth i fentrau cymdeithasol a phartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf ymhob ran o Gymru.

Mae o hefyd wedi gweithio yn y Cynulliad Cenedlaethol, a chyda dwy elusen datblygu cymunedol yn Ne Affrica. Mae e'n gadeirydd Hub Cymru Africa.

**www.bct.wales**  
**chris.johnes@bct.wales**  
**@c\_johnes**

### **Dr Sarah Lloyd-Jones, Cyfarwyddwr, Pobl a Gwaith**

Dr Sarah Lloyd-Jones yw cyfarwyddwr Pobl a Gwaith, elusen annibynnol yng Nghymru a gafodd ei sefydlu dros 30 o flynyddoedd yn ôl i hybu dysgu ac ymchwil fel adnoddau allweddol i helpu pobl i gael mynediad at waith. Mae'n gweithio drwy wneud gwaith ymchwil a gwerthuso ar gyfer y trydydd sector a'r sector cyhoeddus, a drwy gynnal ei weithgareddau ymchwil gweithredol seiliedig ar gymunedau. Ar hyn o bryd, mae Sarah yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector gwirfoddol i ddatblygu dull ar sail ardal o weithio gyda chymunedau. Mae hi hefyd yn gweithio gyda Talwrn – rhwydwaith Cymru gyfan o fudiadau gwirfoddol sydd â'r bwriad o ddatblygu capasiti mewnol.

**peopleandwork.org.uk**  
**Sarah.Lloyd-Jones@peopleandwork.org.uk**  
**@SarahLloydJone4 @PoblGwaith**

### **Ben Cottam, Pennaeth Materion Allanol, Ffederasiwn Busnesau Bach (FfBB)**

Ben Cottam yw Pennaeth Materion Allanol yn Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, ac yn y swyddogaeth hon, mae'n bennaeth ar swyddfa Seneddol y sefydliad yng Nghymru. Ymunodd â'r FfBB o'r corff cyfrifyddu, ACCA, lle bu'n gwasanaethau fel pennaeth ACCA Cymru. Fodd bynnag, bu'n gweithio cyn hyn i'r FfBB, pan oedd yn gweithio fel Rheolwr Polisi yn FfBB yn gynharach yn ystod ei yrfa.

**www.fsb.org.uk**  
**Ben.Cottam@fsb.org.uk**  
**@TheCottam**

### **Tim Peppin, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Datblygu Cynladwy, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILA)**

**tim.peppin@wlga.gov.uk**

---

# Gweithdai

## Datblygu Cyfoeth Lleol

### Sel Williams, Cwmni Bro Ffestiniog

Brodor o Ddyffryn Conwy yw Sel Williams a fu ar wahanol adegau'n labrwr, gwyddonydd ymchwil, athro ysgol a darlithydd yn y Coleg Normal ac yn y Brifysgol ym Mangor. Mae ganddo gefndir dysgu, ymchwil a chyhoeddi ym maes Bioleg, Athroniaeth, Gwleidyddiaeth, Economeg a Datblygu Cymunedol. Tros gyfnod o ddeugain mlynedd enillodd brofiad helaeth o ddatblygu cyrsiau addysg uwch a chymunedol Cymreig gan eu cyflwyno'n y Gymraeg a'r Saesneg. Mae bellach wedi ymddeol o waith llawn amser ond mae'n parhau i ddysgu'n rhan amser fel tiwtor ym Mhrifysgol Bangor. Mae ganddo brofiad ymarferol ym maes datblygu cymunedol tros gyfnod o bron hanner can mlynedd. Ar hyn o bryd mae'n gyfarwyddwr nifer o fentrau cymunedol, yn genedlaethol ac yn lleol yn ei gynefin ym Mro Ffestiniog. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys gwesty cymunedol Y Pengwern yn Llan Ffestiniog a Chwmni Bro Ffestiniog, sy'n rwydwaith o fentrau cymunedol yn yr ardal.

**cwmnibrofffestiniog.cymru**  
**sel.williams@bangor.ac.uk**  
**@Cwmnibro**

### Ceri Cunnington: Cwmni Cymunedol Bro Ffestiniog

Degawd o brofiad o weithio a datblygu projectau gymunedol efo Cymunedau'n Gyntaf Bowydd a Rhiw yn gyntaf fel swyddog Datblygu ac yna fel Cydlynnydd. Un o sylfaenwyr Antur Stiniog yn ol yn 2007. Yn ganolog i 'ir cais i sicrhau dros £1.2miliwn ar gyfer datblygu'r llwybrau beicio a gweithgareddau awyr agored yn yr ardal. Gweithio fel swyddog datblygu i GISDA cyf elusen ar gyfer pobl ifanc bregus tan yn ddiweddar ac bellach yn gweithio i Cwmni Cymunedol Bro Ffestiniog. Tad i 2 o ferched bach. Diddordebau yn cynnwys cerdded, cerddoriaeth, diwylliant a threftadaeth. 'Be sy'n cysylltu ni yn hytrach 'na gwahanu ni sy'n bwysig'.

**cwmnibrofffestiniog.cymru**  
**Ceri.C@CwmniBro.Cymru**  
**@Cwmnibro**

### Cynghorydd Matthew Brown, Cyngor Dinas Preston

Mae'r Cynghorydd Matthew Brown o Gyngor Dinas Preston wedi bod yn flaenllaw mewn gweithgareddau Adeiladu Cyfoeth Cymunedol mewn partneriaeth â CLES, sydd bellach yn cael eu hadnabod fel "Model Preston". Mae'r dull hwn yn cydnabod methiant systemig y prif fodel corfforaethol cyfalafol a gafodd ei amlygu ar ôl y cwmp ariannol a'r cyni cysylltiedig yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

Gan ddefnyddio syniadau economaidd amgen sydd wedi llwyddo yma a thramor fel ysbrydoliaeth, mae'r gwaith yn Preston yn ceisio demograteiddio'r economi leol drwy ddefnyddio gwahanol strategaethau i sicrhau cyfoeth ar gyfer unigolion a busnesau yn y gymuned, a'i gadw.

Mae'r gwaith gyda CLES wedi bod yn ganolog i hyn, gan gynnwys "sefydliadau angori" sydd wedi sicrhau bod degau o filiynau o bunnau yn dychwelyd i sefydliadau yn economïau Preston a Swydd Gaerhirfryn. Mae syniadau eraill yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys buddsoddi pensiynau cyhoeddus yn yr economi leol, democratiaeth ynni, polisiau cyflog byw, bancio cymunedol, ehangu undebau credyd ac ehangu'r economi gydweithredol.

**cllr.m.brown@preston.gov.uk, @MatthewBrownLab**

## **Cefnogi Ardaloedd Cadarns**

### **Sarah Stone, Cyfarwyddwr Gweithredol y Samariaid yng Nghymru**

Dechreuodd Sarah Stone weithio gyda'r Samariaid ym mis Awst 2013. Cyn ymuno â'r Samariaid, roedd Sarah yn Ddirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a chyn hynny, roedd yn Gyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus i Age Concern Cymru.

Fel Dirprwy Gomisiynydd, bu Sarah yn chwarae rhan allweddol mewn creu strategaeth a chefnogi'r Comisiynydd Pobl Hŷn i gynllunio ac arwain y Comisiwn Pobl Hŷn fel sefydliad.

Tra'n gweithio gydag Age Concern Cymru, roedd Sarah yn arwain y gwaith i sicrhau bod materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yn cael sylw gan wleidyddion a gwneuthurwyr polisiâu a'u bod yn uchel ar agenda'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru. Bu'n gweithio i Mencap yn ogystal, yn cynorthwyo rhieni a gofalwyr pobl gydag anableddau dysgu, fel y byddai eu lleisiau yn cael eu clywed wrth gynllunio gwasanaethau cefnogi.

Mae gan Sarah MSc mewn Polisi Cymdeithasol o Brifysgol Bryste ac mae'n Gymrawd Ymchwil er Anrhydedd yn yr Ysgol Feddygaeth ym Mhrifysgol Abertawe.

**S.Stone@samaritans.org**

**www.samaritans.org**

**@SamaritansCymru**

### **Bryn Jones, Fforwm Cymuned Penparcau**

Bryn Jones yw Cydlynnydd y Fforwm sydd wedi cofrestru yn ddiweddar fel Elusen. Mae ganddo dros 18 mlynedd o brofiad fel Cynghorydd Cymunedol lleol yn y Borth a thros 10 mlynedd o brofiad o weithio i Gyngor Celfyddydau Cymru, gan gynnwys bod yn Swyddog Loteri Celfyddydau i Bawb yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru am 8 mlynedd a Swyddog Cynhwysiant a Chyfranogi ar raglen Strategaeth Celfyddydau ac Iechyd a Chelfyddydau Cymunedol CCC. Cyn hyn, bu'n gweithio am dros 13 mlynedd yn defnyddio'r celfyddydau creadigol o fewn yr Uned Iechyd Meddwl yn Aberystwyth.

Ef oedd Cydlynnydd Cymunedau'n Gyntaf dros Benparcau a Gorllewin Aberystwyth gan reoli staff datblygu cymunedol, gwirfoddolwyr ynghyd â gweithredu fel ysgrifenyddiaeth i Fwrdd Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf. Mae gan Bryn wybodaeth eang ynglŷn â datblygiad cymunedol, cyfranogi a chynhwysiant, codi arian, ymgysylltu â'r gymuned, ac yn benodol ym Mhenparcau. Mewn cydnabyddiaeth o'i waith, dyfarnwyd Gradd Baglor Er Anrhydedd yn y Celfyddydau i Bryn o Brifysgol Aberystwyth yn 2015.

**contact@Penparcau.cymru**

**@bryncofi @PenparcauForum**

### **Dave Horton, Gweithredu yng Nghaerau a Threlái (GNghTh)**

Gweithiwr ieuenctid a chymuned cymwys gydag 20 mlynedd o brofiad mewn cymunedau yng Nghaerdydd a Cape Town yw Dave Horton. Tra'n cael ei gyflogi o dan raglen Cymunedau'n Gyntaf gan Lywodraeth Cymru, bu'n gweithio gyda chydweithwyr a phobl leol i sefydlu ACE - Gweithredu yng Nghaerau a Threlái, sefydliad a oedd yn eiddo i'r gymuned gyda thros 1000 o aelodau yng Ngorllewin Caerdydd. Mae ACE yn seilio'r gwaith ar egwyddorion Datblygu Cymunedol yn Seiliedig ar Asedau a chydgyngyrchu, sy'n golygu bod yr holl weithredu yn ymdrechu i ymgysylltu â phobl leol fel partneriaid cyfartal. Mae'r sefydliad wedi mynd o nerth i nerth ac mae'n wynebu dyfodol disglair ar ôl i Cymunedau'n Gyntaf ddod i ben. Mae ACE yn aelod gweithredol llawn o Citizens Cymru (cynghrair trefnu cymunedol) ac ar hyn o bryd, mae

Dave yn gweithredu fel cydgadeirydd. Yn ogystal, mae'n aelod o bwyllgor ymgynghorol ar gyfer Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru. Yn ddiweddar, cwblhaodd ei MSc mewn Adfywio Cymunedau ac mae'n byw efo'i deulu yng Nghaerau, Caerdydd.

**www.aceplace.org**  
**daveh@elycaerau.com**  
**@elycaerau**

---

## **Sefydliadau Angori**

### **Matthew Jackson, Dirprwy Prif Weithredwr, Centre for Local Economic Strategies (CLES)**

Mae swyddogaeth Matthew yn cynnwys pob un o weithgareddau CLES. Mae hyn yn golygu datblygu, ceisio am brosiectau ymchwil newydd a chyffrous a'u cyflawni; gwasanaethu aelodaeth CLES a chynrychioli'r sefydliad drwy siarad mewn digwyddiadau. Mae Matthew yn cymryd rhan yn benodol mewn gwaith CLES i adeiladu cyfoeth mewn cymunedau, ac ar hyn o bryd, mae'n gweithio mewn 11 dinas drwy Ewrop.

**matthewjackson@cles.org.uk**  
**www.cles.org.uk**  
**@CLESthinkdo**

### **Jonathan Morris, Tai Tarian**

Mae Jonathan yn gweithio i gymdeithas dai Tai Tarian yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ar ôl cychwyn ei yrfa broffesiynol yn y gyfraith, ymddiddorodd Jonathan yn y mudiad sy'n datblygu o Awdurdodau Lleol a oedd yn trosglwyddo eu tai cyngor i gymdeithasau tai newydd sy'n eiddo i'r gymuned. Dechreuodd weithio, gydag eraill, ar strategaethau ac offer pholisïau er mwyn cipio'r buddsoddiad a godwyd drwy'r drosglwyddo, gan sicrhau bod y buddsoddiad yn parhau o fewn y gymuned leol. Arweiniodd hyn at weithio yn nhîm Hysbysu i Ymrwymo Llywodraeth Cymru. Sefydlwyd Hysbysu i Ymrwymo er mwyn cefnogi Awdurdodau Lleol a LCCau i gyflawni SATC a gwneud y gorau o'r cyfleoedd ar gyfer adfywio cymunedau lleol. Mae'r prosiect wedi helpu'r sector sicrhau oddeutu £2biliwn o fuddsoddiadau ychwanegol mewn tai, ac yn awr mae'i Becynnau Cymorth Gallu Gwneud yn cael eu defnyddio yn eang gan sefydliadau tai a sefydliadau adfywio. Dychwelodd Jonathan i'w dref enedigol ym Mhort Talbot i gymryd rhan flaenllaw mewn sefydlu Tai Tarian a defnyddio'r polisi.

**Jonathan.Morris@tairarian.co.uk**  
**tairarian.co.uk**  
**@TaiTarian**

---

## **Economi Sylfaenol**

### **Ian Thomas, Croeso i'n Coedwig**

Ian yw'r prif swyddog ar y prosiect coedwigaeth cymdeithasol a gychwynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Loteri Fawr. Yn ogystal, mae'n gyfarwyddwr gwaith yn y cwmni dielw WTOW Cyf. Am rai blynyddoedd, bu'n aelod o fwrdd gwirfoddoli Llais y Goedwig (Llais Coetiroedd yng Nghymru). Ar hyn o bryd, mae'n goruchwylio adeiladu cynllun hydro meicro yng Nghwm Saebren yn Nhrefherbert.

**welcometoourwoods@hotmail.com, @W\_T\_O\_W**

## **Dafydd Meurig, Cadeirydd, Partneriaeth Ogwen**

Mae Dafydd Meurig yn gynghorydd sir yn Gwynedd ac yn gadeirydd o Bartneriaeth Ogwen - menter gymdeithasol sy'n gweithio er budd economi, cymdeithas a chymunedau Dyffryn Ogwen. Rôl y Bartneriaeth yw hyrwyddo a datblygu prosiectau sy'n adfywio ac yn atgyfnerthu economi a chymuned Dyffryn Ogwen.

Ariennir y Bartneriaeth gan Gynghorau Cymuned Bethesda, Llanllechid a Llandygai gan ddangos mentergarwch a blaengaredd wrth gydweithio.

**www.ogwen.org**  
**cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru**  
**@dafyddmeurig**

---

## **Busnes Lleol**

### **Joshua Miles, Rheolwr Polisi, Ffederasiwn Busnesau Bach (FfBB)**

Rheolwr Polisi i Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yw Joshua Miles. Bu'n astudio ym Mhrifysgol Caerdydd a'r Institut D'Etudes Politiques Bordeaux ac mae ganddo MSc mewn Economeg a Pholisi Cyhoeddus. Ers iddo raddio, bu Josh yn gweithio i Aelod Seneddol, yn yr ymgynghoriaeth materion cyhoeddus, Gwleidyddia Positif ac i FfBB Cymru. Ar ôl cyfnod yn gweithio i Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, dychwelodd Josh i weithio yn hwyr y llynedd i FfBB Cymru.

**Joshua.Miles@fsb.org.uk**

**Ceri and Aled Roberts, Delwedd**  
**@Delwedd**  
**www.delwedd.co.uk**

**Neil Blockley, Little Inspirations**  
**@NeilBlockley**  
**little-inspirations.co.uk**

---

## **Gofal Cymdeithasol**

### **Jenny O'Hara Jakeway, Cysylltu Gofalwyr Credu**

Jenny yw Prif Swyddog Gweithredol i Cysylltu Gofalwyr Credu; sefydliad yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru sy'n datblygu cefnogaeth ar gyfer Gofalwyr Ifanc a Gofalwyr sy'n Oedolion drwy ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar asedau, dulliau wedi'u canoli ar unigolion, ynghyd â dulliau adeiladu cymuned.

Daeth Jenny ar draws y cysyniad o 'adeiladu cymuned' pan oedd yn fyfyrwraig, ac o hynny ymlaen, roedd ganddi ddiddordeb mewn dod o hyd i ffyrdd o gefnogi cymunedau i fod yn gynhwysol, rhoi lle i niferoedd mawr o leisiau a llunio eu dyfodol eu hunain. Yng Nghymoedd De Cymru, bu'n gweithio ochr yn ochr ag aelodau'r gymuned a darparwyr gwasanaethau er mwyn dod ynghyd i gydgyhyrchu canlyniadau iechyd, addysg a chyflogaeth, lleihau cyfraddau trosedd, a gwneud gwelliannau i'r amgylchedd ffisegol.

Wedi cael ei rhyfeddu gan yr hyn yr oedd pobl o'i chwmpas hi yn ei gyflawni drwy ddulliau cydgynhyrchiol sy'n dechrau gyda beth sydd o bwys i ddinasyddion mewn cymunedau, mae Jenny yn gweithio i ddefnyddio'r un egwyddorion i hwyluso canlyniadau positif gyda gofalwyr o bob oed.

**ceojenny@credu.cymru**  
**@jennyjakeway @creducarers**  
**credu.cymru**

### **Lyndsey Campbell-Williams, Medrwn Môn**

Ar hyn o bryd, mae Lyndsey yn rheoli Prosiect Portffolio Llais Cymunedol ym Medrwn Môn ar Ynys Môn a bu'n gweithio fel Cydlynnydd Partneriaeth gyda Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yng Nghaergybi cyn hynny (2003-2011).

Mae Lyndsey wedi bod yn rhan o'r gwaith o sefydlu'r Model Adeiladu Cymunedau yn ardal Seiriol, sy'n cynnwys De-ddwyrain yr Ynys. Mae'r prosiect wedi bod ar waith ers 4 blynedd ac mae wedi llwyddo i gynnwys preswylwyr, Cynghorwyr Tref a Chymuned, Aelodau Etholedig a Darparwyr Gwasanaethau Cyhoeddus yn y gwaith o ddatblygu model cydgynhyrchu sy'n cael ei ddyblygu fel model arfer orau ledled Ynys Môn ar hyn o bryd.

Drwy ei gwaith ar y prosiect Llais Cymunedol, mae Lyndsey hefyd wedi gweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn i ddatblygu Bwrdd Ymgynghori ac Ymgysylltu ar y Cyd fel llwyfan i sicrhau trafodaethau ystyrlon gyda chymunedau ynglŷn â gwasanaethau lleol. Mae hyn yn ogystal â chreu dull tair haen o gynnwys cymunedau yn y gwaith o wneud penderfyniadau lleol, creu atebion newydd a gwthio'r ffiniau wrth ddylunio gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion nhw yn unol ag egwyddorion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru).

**lyndsey@medrwnmon.org**  
**@medrwnmon**  
**www.medrwnmon.org**

---

### **Trefi Trawsnewid**

#### **Wedi'i gynnal gan WCVA**

**Russell Todd, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf yn WCVA; Peter Davies, Cadeirydd**

Fel aelod bydd gennych fynediad at ystod eang o adnoddau a chymorth. Rydym hefyd yn hoff o gynnwys ein haelodau cyn i ni wneud penderfyniadau o bwys sy'n effeithio ar y trydydd sector.

**wcva.org.uk**  
**@walesCVA**

### **Gina Wilson, Uwch Swyddog Polisi a Datblygu, Ymddiriedolaeth Carnegie UK**

Ymunodd Gina â'r Ymddiriedolaeth yn 2014, gan ddod ynghyd â mwy na degawd o brofiad mewn datblygu prosiectau, materion cyhoeddus ac ymchwil. Ar hyn o bryd, mae hi'n canolbwyntio ar ddatblygu ymarfer arloesol, partneriaethau a chyfathrebiadau ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

Cyn hyn, bu Gina yn cydlynu'r datblygiad a'r cyflwyniad o fenter genedlaethol Llywodraeth yr Alban 'No Knives, Better Lives' (NKBL), yn YouthLink yr Alban. Mae'r rhaglen hon sy'n ymgysylltu ieuencid, addysg a marchnata cymdeithasol wedi cyfrannu yn eglur at newid cadarnhaol mewn polisi, ymarfer a gweithio mewn partneriaeth mewn perthynas â lleihau trais. Bu'n gweithio

mewn amrywiol swyddi polisi, materion cyhoeddus, ymchwil a thiwora yn y sectorau gwirfoddol ac addysg uwch, a bu'n gweithio i aelod o Senedd yr Alban yn ystod tymor cyntaf Senedd ddatganoledig yr Alban.

Mae Gina yn gwirfoddoli o fewn y system gyfiawnder troseddol ac yn ogystal mae'n gwasanaethu fel aelod o Banel Plant, sef y tribiwnlys cyfreithiol mwyaf yn yr Alban, sy'n gwneud penderfyniadau anhepgor i helpu gwella bywydau plant a phobl ifanc bregus.

**Gina@carnegieuk.org**

**@Gina\_Wilson\_ @CarnegieUKTrust**

---